# BTEC Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (NCFE) (Amser Llawn)

Mae'r Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth yn gwrs dwy flynedd amser llawn, wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb yn y diwydiant gwyliau a hamdden, sy'n cael ei gydnabod yn eang fel y sector gwasanaethau masnachol mwyaf yn y Byd.
Rhagwelir y bydd swyddi yn y sector twristiaeth yn tyfu, yn ogystal â'r galw am swyddi i raddedigion yn y diwydiant. Bydd y rhaglen hon yn rhoi'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen arnoch i baratoi ar gyfer byd gwaith neu addysg uwch o fewn teithio a thwristiaeth. Gall arwain at lawer o gyfleoedd o fewn y diwydiant deinamig hwn sy'n newid yn barhaus, sy'n cynnwys cynllunio teithiau a digwyddiadau, rheoli gwestai a lletygarwch, marchnata a llawer mwy.

## Gofynion Mynediad

6 TGAU gradd C neu uwch neu gyfwerth, gan gynnwys Mathemateg neu Saesneg. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o deithio a thwristiaeth.

## Rhagolygon Gyrfa

Y llwybr dilyniant cydnabyddedig yw i Radd Sylfaen mewn Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau neu gyrsiau AU tebyg. Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn disgyblaethau cysylltiedig â theithio a thwristiaeth, gan gynnwys rolau maes awyr, criw caban, asiant teithio, cynrychiolydd tramor, gweithio mewn atyniadau ymwelwyr, cynllunio digwyddiadau neu farchnata.

## Modiwlau'r cwrs

Byddwch yn ymchwilio i'r sector teithio a thwristiaeth, y busnes teithio a thwristiaeth, y DU fel cyrchfan gwyliau, gwasanaeth cwsmeriaid a marchnata twristiaeth.
Bydd modiwlau'n cynnig ystod ardderchog o gyfleoedd i gael gyrfa mewn amrywiaeth o feysydd twristiaeth, gan gynnwys cyrchfannau, mordeithiau, cwmnïau hedfan, lletygarwch a chynllunio digwyddiadau, gyda'r astudiaeth a wneir wedi'i dylunio i gynnig cyfle i fyfyrwyr brofi llawer o feysydd cyn arbenigo mewn AU. neu ddewis eu llwybr gyrfa.

## Asesiad

Bydd myfyrwyr yn paratoi swm amrywiol o waith cwrs. Cwblheir asesiadau ysgrifenedig trwy gydol y cwrs, ymgymerir ag ymchwil twristiaeth a pharatoir a chyflwyniad y darganfyddiadau ar ffurf ysgrifenedig a llafar, yn ogystal â chynnig nifer o elfennau ymarferol sy'n cadw'r cwrs yn ddiddorol ac yn ddifyr.

### DULL ASTUDIO

FT

### LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

1Y